

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 7(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu, neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 1480 (Cy. 382)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

BWYD, CYMRU

ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau Rheolaethau
Swyddogol (Estyn Cyfnodau
Trosiannol a Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r
UE) 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan:

- (a) paragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379 (Cy. 252)) ("Rheoliadau 2011"); a
- (b) paragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheoliad 2 yn gwneud diwygiadau i Atodlen 5 i Reoliadau 2011 er mwyn sicrhau cysondeb ag Erthygl

56A o Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill, fel y'i mewnosodwyd at y dibenion a grybwyllir ym mharagraff 3 o Atodiad 6, ac fel y'i diwygiwyd gan reoliad 2 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/1443).

Mae rheoliad 2 hefyd yn diwygio Atodlen 5 i Reoliadau 2011 er mwyn galluogi pwerau gorfodi i barhau i fod ar gael yn ystod y cyfnod graddoli trosiannol estynedig ac eithrio mewn safleoedd rheoli ar y ffin mewn cysylltiad ag anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid yng Nghymru.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Paratodau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/1 (Cy. 1)) er mwyn estyn yr ataliad dros dro ar y gofyniad i baratodau cig a fewnforir i Gymru o Aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las neu'r Swistir fod wedi eu rhewi'n ddwfn, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r cyfnod graddoli trosiannol estynedig. Mae'r estyniad hwn tan hanner nos ar 30 Mehefin 2022. Cafodd y dyddiad hwn ei ddiwygio yn flaenorol gan Reoliadau Paratodau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) 2021 (O.S. 2021/376 (Cy. 117)) a Rheoliadau Paratodau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/977 (Cy. 231)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 7(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu, neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 1480 (Cy. 382)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

BWYD, CYMRU

ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau Rheolaethau
Swyddogol (Estyn Cyfnodau
Trosiannol a Diwygiadau
Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r
UE) 2021

Gwnaed am 11.03 a.m. ar 22 Rhagfyr 2021

*Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru am 5.45 p.m. ar 22 Rhagfyr 2021*

Yn dod i rym 30 Rhagfyr 2021

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan—

- (a) paragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(1); a

(1) O.S. 2011/2379 (Cy. 252). Mewnosodwyd paragraff 11A yn Atodlen 2 gan reoliad 2(2) o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020/1639 (Cy. 344)).

- (b) paragraff 1(1) o Atodlen 2, a pharagraff 21 o Atodlen 7, i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1).

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau hyn heb fod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad(2).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Rhagfyr 2021.

Diwygiadau i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011

2.—(1) Mae Atodlen 5 (cymhwyso Rhan 3, ei rhanddirymu a'i haddasu, mewn perthynas â thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i drefniadau mewnforio trosiannol arbennig) i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(3) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 5 (rhanddirymu rheoliad 14: amseru hysbysiad mewnforio)—

(a) yn is-baragraff (3)—

- (i) yn lle “O 1 Ionawr 2022” rhodder “Yn ddarostyngedig i is-baragraff (3A), o 1 Ionawr 2022”;
- (ii) ar ôl “cynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid” mewnosoder “neu sgil-gynhyrchion anifeiliaid nad yw is-baragraff (2)(c) eisoes yn ymdrin â hwy”;

-
- (1) 2018 p. 16; gweler adran 20(1) am y diffiniad o “devolved authority”. Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan adran 41(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) a pharagraff 53(2) o Ran 2 o Atodlen 5 iddi.
- (2) Mae'r cyfeiriadau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Gweler paragraffau 7 a 38 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 am ddarpariaeth ynghylch y weithdrefn sy'n gymwys i'r offeryn hwn.
- (3) Mewnosodwyd Atodlen 5 gan reoliad 32 o O.S. 2020/1612 (Cy. 337). Diwygiwyd paragraff 5(3) gan reoliad 2 o O.S. 2021/384 (Cy. 122), O.S. 2021/847 (Cy. 197) ac O.S. 2021/1094 (Cy. 260).

(b) ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder—

“(3A) Nid yw is-baragraff (3) yn gymwys i nwyddau perthnasol—

(a) sydd o fewn cwmpas Erthygl 7 neu Erthygl 10 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/2122 sy'n ategu Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran categorïau penodol o anifeiliaid a nwyddau sydd wedi eu hesemptio rhag rheolaethau swyddogol mewn safleoedd rheoli ar y ffin, rheolaethau penodol ar fagiâu personol teithwyr ac ar lwythi bach o nwyddau a anfonir at bersonau naturiol na fwriedir eu rhoi ar y farchnad(1); neu

(b) a fewnforir i Brydain Fawr o Weriniaeth Iwerddon pan fodlonir yr amod ym mharagraff (3B).

(3B) Yr amod yw fod y nwyddau wedi eu cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon neu yng Ngweriniaeth Iwerddon, ac at y dibenion hyn cymerir bod nwyddau wedi eu cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon neu yng Ngweriniaeth Iwerddon os ydynt wedi eu prosesu yno.”

(3) Yn lle paragraff 8(a) (addasu rheoliad 20: gweithredu yn dilyn methiant gwiriadau neu yn dilyn cipio – cynhyrchion) rhodder—

“(a) ym mharagraff (1)—

(i) “yw gwiriadau” wedi ei roi yn lle “yw'r gwiriadau mewn safle rheoli ar y ffin”;

(ii) “neu, yn achos nwyddau perthnasol, nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau Atodlen 5” wedi ei fewnosod ar ôl “Rheoliad Rheolaethau Swyddogol””.

(4) Yn lle paragraff 9 (addasu rheoliad 23: gweithredu yn dilyn methiant gwiriadau neu yn dilyn cipio – anifeiliaid) rhodder—

“Mae rheoliad 23 yn gymwys fel pe bai, ym mharagraff (1)—

(a) “yw gwiriadau” wedi ei roi yn lle “yw'r gwiriadau mewn safle rheoli ar y ffin”;

(b) “neu, yn achos nwyddau perthnasol, nad yw'n cydymffurfio â darpariaethau Atodlen 5,” wedi ei fewnosod ar ôl “Rheoliad Rheolaethau Swyddogol””.

(1) EUR 2019/2122, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1482 a 2021/453.

Diwygiad i Reoliadau Paratodau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

3. Yn rheoliad 3(1) (addasiadau darfodol i Benderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC) o Reoliadau Paratodau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021(1), yn lle “31 Rhagfyr 2021” rhodder “30 Mehefin 2022”.

Lesley Griffiths

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
Am 11.03 a.m. ar 22 Rhagfyr 2021

(1) O.S. 2021/1 (Cy. 1), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/376 (Cy. 117) ac O.S. 2021/977 (Cy. 231).